# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Y Faenol

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion ac mae'n arwain trwy esiampl. Mae gan arweinwyr weledigaeth glir a rennir gan staff, disgyblion a llywodraethwyr sy'n canolbwyntio ar les a chynnydd pob un o'r disgyblion. Mae staff yn meithrin amgylchedd anogol a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn cynnal perthnasoedd gwaith cryf â disgyblion a'u teuluoedd, gan sicrhau cymuned gefnogol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at hyder disgyblion a'u hawydd i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol, gan gynnwys y disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel.

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau dysgu yn diwallu anghenion disgyblion yn dda. Dros gyfnod, mae staff wedi datblygu cwricwlwm eang ac ysgogol sy'n canolbwyntio ar greadigrwydd ac yn datblygu medrau disgyblion. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau y maent yn eu caffael i'w gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu ystod o fedrau yn briodol trwy weithgareddau chwarae. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn defnyddio adborth yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith yn ystod gwersi a'u paratoi wrth iddynt symud i'w cam dysgu nesaf. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryfder. Mae staff yn ystyried anghenion y disgyblion yn ofalus ac yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i ystafelloedd dosbarth a dysgu i sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael eu diwallu.

Mae ymwelwyr yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am y byd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn prosiectau menter buddiol, er bod cysylltiadau â'r gymuned leol yn llai datblygedig.

Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae'r pennaeth yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu proffesiynol, sydd yn ei dro yn cynorthwyo staff i gyfrannu'n effeithiol at y broses ar gyfer gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i bresenoldeb ac yn gweithio gyda theuluoedd i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Datblygu cysylltiadau â'r gymuned leol ymhellach

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/08/2025